# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Pontllanfraith**

**Bryn Pavilion**
**Bryn Estate**
**Pontllanfraith**
**Coed-duon**
**NP12 2HD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**8 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Pontllanfraith wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer 13 o blant. Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, ail-gofrestrodd gydag AGC yn 2018. Mae plant rhwng dwy a phedair oed yn mynychu'r cylch chwarae. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ystafelloedd yn Bryn Pavilion, a chaiff defnydd llwyr o'r safle yn ystod yr oriau gweithredu. Ar hyn o bryd darperir sesiynau rhwng 9 a 12 a 12:30 a 3:00 yn yr wythnos yn ystod y tymor. Mae'r sefydliad wedi penodi Unigolyn Cyfrifol i weithredu ar ei ran, ac mae Person â Chyfrifoldeb wedi cael ei phenodi i reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Darperir y gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn ddarparwr addysg, a chaiff ei arolygu gan Estyn hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r gofal yn gynnes iawn ac mae'r cydberthnasau â'r plant a'u teuluoedd yn gefnogol ac yn addfwyn. Mae'r plant yn cyfeirio at y staff fel "Anti..." ac maent yn amlwg yn hoff iawn o'r bobl sy'n gofalu amdanynt ac mae'r tîm bach o staff yn ymateb yn yr un modd. Mae'r safle yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr addurniadol priodol. Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a chânt eu cefnogi'n gadarnhaol gan y grŵp o staff. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol ar y cyfan ond mae angen defnyddio dull gweithredu mwy cadarn o ran gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau bod yr holl ofynion rheoliadol yn cael eu bodloni.

**2. Gwelliannau**

Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rhoddwyd gwybod i'r darparwr nad oedd yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas ag addasrwydd gweithwyr o ran gwiriadau cyn cyflogi. Fodd bynnag, gan fod y darparwr wedi gweithredu ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, ni chyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Gwnaethom argymhellion arfer da hefyd a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gofal da, yn cadw'n brysur ac yn ymddiddori yn y cylch chwarae. Mae'r cylch chwarae yn lle hapus a thawel lle y gall y plant ddysgu a chwarae. Gall yr holl blant wneud dewisiadau sy'n ymwneud â'u cyfleoedd chwarae am fod adnoddau ar gael, ac mae'r staff yn gwrando ar eu ceisiadau ac yn ymateb iddynt.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant siarad fel y mynnont a rhoi gwybod i'r staff am eu hanghenion. Maent yn hyderus i siarad â'r staff ac maent yn gwrando ar ddymuniadau a cheisiadau'r plant. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ddigon hyderus i ofyn am gymorth gan y staff ac i ddweud beth roeddent yn ei hoffi a beth nad oeddent yn ei hoffi, er enghraifft, eu dewis o degan a ph'un a oeddent am chwarae yn yr awyr agored. Yn ystod amser byrbryd, gallai'r plant ddewis eitemau byrbryd, a ph'un a oeddent am gael mwy i'w fwyta. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod safbwyntiau'r plant yn cael eu hystyried yn rheolaidd wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae gan y plant lais yn y gwasanaeth, caiff eu cyfathrebu ei werthfawrogi a gallant wneud dewisiadau yn annibynnol.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo'n dda ac yn gyfarwydd ag arferion y gwasanaeth. Maent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w gofalwyr. Clywsom y plant yn defnyddio enwau'r staff, ac fe'u gwelsom yn mynd atynt i gael tawelwch meddwl a sylw. Drwy gydol yr ymweliad gwelsom fod y plant yn hapus ac yn fodlon. Dangoswyd hyn gyda llawer o wenu a chwerthin. Mae gan y plant begiau cotiau unigol gyda'u henw arnynt, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r plant yn hapus ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau eu hunain a theimladau'r rheini sydd o'u cwmpas. Gwelsom fod rhai o'r plant yn hoffi chwarae ar eu pen eu hunain a bod y rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio ac yn chwarae gyda phlant eraill. Gwelsom fod y plant yn gallu aros a chymryd eu tro yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu strategaethau ymdopi i ddelio â'r adegau pan fydd yn rhaid iddynt aros neu wneud rhywbeth nad ydynt am ei wneud. Gwelsom enghreifftiau o hoffter digymell gan rai plant i'w ffrindiau ac i staff, er enghraifft, gwelsom blentyn yn rhoi cwtsh i blentyn arall wrth chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn cael cymorth da i ddatblygu gwydnwch emosiynol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Gall y plant archwilio a mwynhau eu dysgu a'u cyfleoedd chwarae. Roedd detholiad o deganau ar gael i'r plant, gan gynnwys cornel cartref, gweithgareddau crefft ac ardal ddarllen. Gallant ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu cam datblygu. Cânt gyfnodau estynedig o chwarae di-dor sy'n cael eu dechrau gan y plant, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i'r oedolion chwarae ochr yn ochr â nhw. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu ar gael i'r plant. Gallai'r plant ymuno â gweithgaredd wedi'i arwain gan oedolyn gyda'r rhyddid i adael i ymuno â gweithgaredd arall ar unrhyw adeg.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, yn cynnwys chwarae dewisol dirwystr, chwarae anffurfiol a chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain. Mae hyn yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth dda o sgiliau, i fod yn annibynnol, cymryd rhan, dilyn diddordebau a hybu eu datblygiad yn gyffredinol. Roedd y plant yn gallu cymryd risgiau priodol wrth ddefnyddio cyfarpar chwarae yn yr awyr agored ac yn dangos sgiliau annibynnol drwy ddewis adnoddau. Yn ystod amser byrbryd, arllwysodd y plant eu diodydd eu hunain a gweini ffrwythau i'w hunain.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau pwysig yn sgil y cyfleoedd a ddarperir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn hybu chwarae a dysgu'r plant, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol ac maent yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel a hybu amgylchedd diogel ac iach. Mae polisi amddiffyn plant clir ar waith, yn ogystal ag amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymdrin ag ystyriaethau iechyd a diogelwch. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddyletswydd Atal wedi cael ei chynnwys yn y polisïau. Ar 1 Gorffennaf 2015, daeth y ddyletswydd Atal yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae dyletswydd ar bob ysgol a darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig i roi ystyriaeth briodol i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.

Darperir byrbrydau iach, gyda detholiad o ffrwythau, a dŵr neu laeth i'w yfed. Caiff y plant eu hatgoffa i olchi eu dwylo ar adegau priodol; mae hyn i gyd yn cefnogi'r plant i ddatblygu arferion iach. Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, nid oedd pob cofnod wedi cael ei lofnodi gan riant/gwarcheidwad.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant a dilyn polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n briodol. Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith. Mae'r staff yn hybu ymddygiad cadarnhaol gan eu bod yn ymddwyn fel modelau rôl da drwy drin ei gilydd a'r plant mewn ffordd ystyriol a gyda pharch. Gwnaeth y staff gydnabod ymdrechion a chyflawniadau'r plant yn rheolaidd ac roedd y plant yn cael pleser a balchder o'r ganmoliaeth roeddent yn ei gael. Roedd ymddygiad annerbyniol yn cael ei herio mewn ffordd sensitif. Roedd y staff yn egluro pam nad yw math penodol o ymddygiad yn dderbyniol ac yn annog y plant i fod yn garedig, yn ystyriol ac yn ofalgar, er enghraifft '*why don't you share, you can both play with it together*' pan oedd y plant am gael yr un tegan.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o reoli rhyngweithio'r plant.

#### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn gwybod ac yn deall anghenion y plant yn dda ac yn hybu eu cyfleoedd chwarae, dysgu a datblygu yn eu rhyngweithiadau. Mae hyn am ei fod yn grŵp bach ar hyn y bryd ac felly mae'r plant a'r staff yn adnabod ei gilydd yn dda iawn. Mae'r staff yn chwarae ac yn siarad â'r plant drwy gydol y sesiwn ac mae hyn yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Gwelsom yn ffeiliau'r plant eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a bod y camau dysgu nesaf yn cael eu nodi.

Mae'r plant yn elwa ar y cyfleoedd chwarae, dysgu a datblygu y mae'r staff yn eu darparu.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ystafelloedd o fewn pafiliwn unllawr. Mae ardal gaeedig yn yr awyr agored ar gael i'r plant i chwarae ynddi. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i fonitro iechyd a diogelwch yr amgylchedd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw ardaloedd yn ddiogel. Roeddent yn tacluso'r ardaloedd a oedd yn anhrefnus fel mater o drefn ac yn goruchwylio'r plant yn agos. Ceir mynediad drwy ddrws diogel, a gofynnir i ymwelwyr lofnodi pan fyddant yn cyrraedd. Cofnodir presenoldeb y staff a'r plant. Fodd bynnag, ni nodir amseroedd cyrraedd a gadael gwirioneddol. Caiff ymarfer tân ei gynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i nodi peryglon ac i ymgyfarwyddo'r plant â'r ymarfer. Cwblheir gwiriadau diogelwch yn ddyddiol ar gyfer y safle, a gwelsom sampl o asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau'r Archwiliad Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus i hybu arfer gorau ym maes hylendid a rheoli heintiau.

Mae'r staff a'r arweinwyr yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch y cytunwyd arnynt er mwyn monitro diogelwch yr amgylchedd

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant. Mae cynllun yr ystafell yn hybu annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau yn hawdd cael gafael arnynt yn gyffredinol gan olygu y gall y plant ddewis teganau heb gymorth gan oedolyn. Mae ardaloedd dynodedig ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl a chwarae blêr gan alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau heb amharu ar ei gilydd. Mae ardaloedd darllen ar gael i'r plant sydd am eistedd ac edrych ar lyfr. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi dechrau datblygu'r ardal awyr agored er mwyn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu pellach i'r plant yn yr awyr agored. Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos ar gyfer y rhieni ar hysbysfwrdd gan gynnwys tystysgrif yswiriant, tystysgrif cofrestru AGC a chanllawiau bwyta'n iach.

Mae'r darparwyr yn darparu ardaloedd chwarae croesawgar i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar addas ar gael i'r plant. Mae dodrefn priodol er mwyn i'r plant eistedd yn gyfforddus i gwblhau gweithgareddau bwrdd a bwyta eu prydau a'u byrbrydau. Mae amrywiaeth o adnoddau i hybu cyfleoedd dysgu a datblygiad y plant, dan do ac yn yr awyr agored. Dan do gwelsom fod gweithgareddau crefft, chwarae blêr, chwarae rôl, adeiladu ac offerynnau cerddorol ar gael i'r plant.

Mae gan y gwasanaeth rai adnoddau amlddiwylliannol ac arddangosfeydd ar y waliau sy'n adlewyrchu cymdeithas ehangach ac yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau sydd o ansawdd da a'r gael i'r plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Yn gyffredinol, caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau. Caiff y staff gefnogaeth dda i ddarparu safon dda o ofal a chânt eu cymell i wneud eu swydd yn dda. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned leol wedi'u sefydlu'n dda.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae datganiad o ddiben sy'n disgrifio'r gwasanaeth. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth a chaiff ei hadlewyrchu yn y datganiad o ddiben am ei bod yn amlinellu nodau'r gwasanaeth, yn ogystal â manylion, er enghraifft, am y cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu y gall y rhieni wneud penderfyniad hyddysg am ei haddasrwydd i'w plentyn. Nodwyd bod y ffeil polisïau yn drefnus ac yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r polisïau a gaiff eu hadolygu. Gwelsom fod contractau rheini yn cael eu cwblhau cyn i'r plant fynychu a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y plentyn a manylion cyswllt allweddol. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r contractau a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r *'Cynnig Rhagweithiol'* o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau effeithiol ar waith i hunanwerthuso'r gwasanaeth. Gwelsom fod adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio ac roedd hwn yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff. Mae polisi cwynion ar waith os bydd y rhieni yn awyddus i godi mater. Fel darparwr addysg, mae'r gwasanaeth yn cael cymorth gan athro ymgynghorol o'r Awdurdod Addysg Lleol.

Mae'r arweinwyr yn cynnal gwaith gwerthuso a chynllunio ar gyfer y gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Caiff y staff eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u dyletswyddau. Roedd ystod dda o gofnodion dyddiol yn cael eu cadw megis cofrestri presenoldeb a rotas staff er mwyn sicrhau bod cymarebau staff i blant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff ac roedd rhywfaint o wybodaeth ofynnol ar goll. Gwnaeth y person â chyfrifoldeb weithredu ar unwaith i gywiro hyn felly nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd i drafod cynlluniau ar gyfer unrhyw faterion sy'n codi. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarnu i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Yn gyffredinol, mae'r ffordd y mae'r staff a'r adnoddau yn cael eu rheoli yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen dull gweithredu mwy cadarn mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae partneriaethau â'r rhieni a'r teuluoedd yn effeithiol ac maent er budd y plant. Mae'r staff ar gael i'r rhieni siarad â nhw yn ddyddiol a chynhelir nosweithiau rhieni ddwywaith y flwyddyn. Dywedodd y staff wrthym fod y rhieni hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd y cofnodion yn dangos bod y rhieni yn cwblhau contractau a ffurflenni gwybodaeth personol cyn i'r plentyn ddechrau yn y cylch chwarae. Mae'r wybodaeth bersonol yn cofnodi dewisiadau unigol y plentyn. Caiff cysylltiadau da â'r gymuned eu sefydlu gyda theithiau i'r siop a'r swyddfa bost, ynghyd ag ymweliadau â'r lleoliad gan bobl sy'n adrodd stori a'r heddlu.

Mae partneriaethau yn hybu canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r rhieni/gofalwyr ac maent yn effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb:

- Cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant a'r staff;
- gwneud yn siŵr bod y rhieni'n llofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau;
- parhau i ddatblygu'r ardal chwarae awyr agored;
- sicrhau bod contractau'r plant yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddwywaith am tua chwe awr. Roedd yr ymweliad cyntaf yn ddirybudd. Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn;

- Arsylwi ar arferion ac ymarfer gofal;
- siarad â'r staff;
- archwiliad gweledol o'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored;
- ystyried y wybodaeth a ddelir gan AGC;
- edrych ar amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau;
- ystyried y wybodaeth a ddelir yn ffeiliau'r staff a chontractau'r plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Janet Williams |
| Person â chyfrifoldeb | Jodie Lewer |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 13 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Oriau agor | Rhwng 09:00 a 12:00 a 12:30 a 15:00 yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf yn dilyn y cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn | 20 Chwefror 2019 a 22 Chwefror 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: Dim | |